# Cofnodion cryno - Pwyllgor y Llywydd

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Gwener, 6 Tachwedd 2020

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6615

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Dai Lloyd AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Dame Elan Closs Stephens CBE, Comisiwn Etholiadol<br>Bob Posner, Comisiwn Etholiadol<br>Kieran Rix, Comisiwn Etholiadol<br>Rhydian Thomas, Comisiwn Etholiadol |
| Staff y Pwyllgor: | Huw Gapper (Clerc)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf Pwyllgor y Llywydd.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

1.3 Nid yw’r Rheolau Sefydlog yn galluogi Pwyllgor y Llywydd i ethol Cadeirydd dros dro, felly cytunodd y Pwyllgor, pe bai'r Cadeirydd yn profi anawsterau technegol yn ystod y cyfarfod, y byddai Llyr Gruffydd yn arwain y trafodaethau yn ei habsenoldeb.

## 2 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021/22 a’i gynllun pum mlynedd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol i'r cyfarfod a diolchodd iddo am gyflwyno ei amcangyfrif ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22 a'i gynllun pum mlynedd, ar 1 Hydref.

2.2 Bu’r Pwyllgor yn holi’r Comisiwn Etholiadol yn fanwl ar ei amcangyfrif ariannol ar gyfer 2021-22 a'i gynllun Corfforaethol pum mlynedd.

2.3 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol yn unol â pharagraff 16C(2)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

2.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog ar yr amcangyfrif a'r cynllun fel rhan o'r ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan baragraff 16A(8) (b) o Atodlen 1 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

**Camau i’w cymryd**:

- Cytunodd y Comisiwn Etholiadol i ddarparu rhagor o dystiolaeth ar eu rhesymeg dros gynnwys dibrisiant yn yr amcangyfrif.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 4 Craffu ar amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2021/22 a'r cynllun pum mlynedd: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 5 Papur i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.